Mr S. Howells

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD;

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1890. [RHIF 28.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Dyledswydd	73
Eden a Gethsemane	75
Hugh Hughes, y Cambrian Artist	76
Gwroldeb	79
Pysgodwyr Dynion	81
"Amgylchynaist Fi"	83
Pethau Bychain	84
Iolo Morganwg a gwersi ei fywyd	86
Nodynau Gwasgarog	88
Ymweliad a'r Amerig	92
Manion a Hanesion	93
Marwgofion	95

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—D.T., Pantydefaid. (Dylasai hwn fod yn rhifyn Chwefror). S.D., Coedparc; H.J., Glynneath; T.D., Ystrad.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

BYWGRAFFIAD O'R PARCH. JOHN JAMES, GELLIONEN,

Mewn llaw. Anfoner archebion newydd yn ddioedi, gan y dysgwyliwn y bydd galw anarferol am rifyn Mai.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cyfarfodydd Chwarterol nesaf yn Abertawe, dyddiau Mercher a Iau, Ebrill y 9fed a'r 10fed. Dechreuir y cyfarfodydd nos Fercher, pryd y dysgwylir i'r Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar, a T. Thomas, Pantydefaid, bregethu, y naill yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg. Bydd dwy bregeth yn nghyfarfod 11 o'r gloch dydd Iau, y naill yn Saesneg gan y Parch. Owen J. Jones, Caerdydd, a'r llall yn Gymraeg gan y Parch. J. Hathren Davies. Yn y prydnawn, cynnelir cynnadledd, pryd y darllenir dau bapyr ar wahanol bynciau. Am 6 yn yr hwyr, ceir math o "gwrdd clebran," yn cael ei wneyd i fyny o areithio a chanu. Rhoddir gwahoddiad calonog i bawb.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1890. [RHIF 28.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DYLEDSWYDD.

Y MAE y gair *dyledswydd* yn dwyn ystyr ar ei wyneb na ellir ei gamddeall na'i gamesponio. Y mae yn nodi allan fod rhywbeth yn ddyledus, ac o ganlyniad, yn y taliad o'r hyn sydd ddyledus y cawn ni allan wir feddylddrych o ddyledswydd. Bydd i hyn esponio paham nad yw y gair ond anfynych iawn wedi cael y sylw y mae yn ei deilyngu, a phaham y mae erioed wedi cael ei gyssylltu gyda'r hyn sydd gaied, oer, a sarug. Nid yw yn waith hawdd i ddeffroi brwdfrydedd dros y taliad noeth o ddyled, a'r cyflawniad o'r hyn ddylem ei wneyd. Y mae hyn yn bod felly, modd bynag, yn unig oblegyd nad yw dynolryw yn y cyffredin wedi gwneyd cymmaint o gynnydd ag y dylent at gariad syml, at gyfiawnder, gwirionedd, a'r hyn sydd iawn er eu mwyn eu hunain. Yr ydym yn cael ein llywodraethu i ormodedd gan deimlad gwamal neu nwydau, ac hefyd gan hunanoldeb neu hunanles o ryw gamsyniol. Yr ydym yn rhy aml yn gofyn cael ein cyffroi gan ryw gyffroad, o gael ein gyru gan ryw fraw, neu ein cymhell gan ryw wobr, cyn y gellir ein cyffroi neu ein gorfodi i wneyd yr hyn sydd iawn, ac y mae yn llawer mwy anhawdd nag y dychymygwn ni i wneyd ein dyledswydd yn unig yn syml er ei mwyn ei hun. Ond etto, dylai yr hyn sydd yn ymddangos felly mor afrwydd fod yn berffaith hawdd a naturiol, a dylai y gair sydd yn awr yn cael ei gyssylltu mor fynych â'r hyn sydd oer a chaled fod yn un o'r geiriau rhagoraf a melusaf, gan weled ei fod yn cynnwys gwirionedd, anrhydedd, cyfiawnder a'r iawn, a gallwn ychwanegu cariad, oblegyd y mae dyledswydd yn ei chyfanrwydd yn cynnwys yr uchelaf yn gystal a'r iselaf o bethau; ac os yw yn ein dwyn i lawr at y creaduriaid iselaf ar y ddaear, i'r rhai ydym ddyledus o weithred dda neu air cariadus, y mae

yn ein cario hefyd i fyny at y Bod Uwchaf yn y nefoedd, yn mhresenoldeb yr Hwn y mae y taliad o bob dyled yn dyfod yn ennilliad o fywyd tragwyddol.

Cymmerwn dan ein hystyriaeth gynnwysfawredd dyledswydd. Y mae yr hyn sydd ddyledus oddiwrthym yn cynnwys rhywbeth sydd ddyledus i ni ein hunain, i ereill, ac i Dduw.

(a) Yr ydym yn ddyledus i ni ein hunain o barch, ystyriaeth, a chwrtaith. Y mae Duw wedi rhoddi i ni drysor gwerthfawr wrth roddi i ni fywyd. Nid yw y rhodd hon o'r eiddom ni i'w harfer fel y mynom, neu i'w chamarfer. Yr ydys wedi dywedyd mai ein hewyllys ni ddylai fod i'w gwneyd yn un ag eiddo Duw ; felly y gallwn ddweyd am ein bywydau—nid ydynt yn eiddo i ni, ond yn unig i'w gwneyd yn eiddo iddo Ef. Ond ar wahan oddiwrth hyn, y mae, bid sicr, yn ddyledus i ni ein hunain barchu ein hunain, i osod gwir werth ar ein galluoedd, ac y dylem roddi i'r galluoedd gwrtaith a sylw priodol. Nid yw ddim amgen gwastraff cywilyddus, yn unig er mwyn gwastraffu a chamarfer ein galluoedd, i ddarostwng ein meddwl, i dywyllu y gydwybod, i wanhau yr ewyllys, ac i lygru y serchiadau. Ffolineb ac ynfydrwydd hollol yw niweidio neu gamddeall y bywyd rhyfeddol sydd yn ein gofal ; a chan ein bod yn gyfrifol am ein bywyd, ac am holl gyflawniadau ein bywyd, gwelwn mai ein dyledswydd arbenig yw talu sylw priodol i gynghor yr Apostol Paul, a'i gymhwyso atom ni ein hunain yn bersonol—"Eithr holed dyn ef ei hun," ac "Eithr profed pob un ei waith ei hun ; ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall. Canys pob un a ddwg ei faich ei hun."

(b) Yr ydym ddyledus i ereill. Ni allwn fod yn annybynol ar bobl ereill, ac ni allwn oddiwrth fod ereill yn ymddybynol arnom ni. Yr ydym yn byw mewn teuluoedd, yn gymdeithasau ac yn wladwriaethau, ac o angenrheidrwydd, yn rhwymedig i'n gilydd. Y mae rhwymau cymdeithas a diolchgarwch yn ein cymhell i gydnabod ac ymddwyn tuag at ereill fel y dymunem i ereill ymddwyn tuag atom ni, ac megys i ad-dalu caredigrwydd. Y mae cyfiawnder yn ein tueddu i wneyd yr hyn sydd iawn : y mae dynoliaeth yn ein gorfodi i ddangos trugaredd. Buasai hyd y nod foesoldeb oer a difywyd yn ein harwain at hyn oll, oblegyd heb wneyd yr hyn sydd ganmoladwy, heb un trugaredd nac un weithred dda ynddo, byd oer, annhrefnus, a llygredig fuasai'r byd hwn, heb ynddo ddim daioni na dynoliaeth. Y mae yn amlwg, gan hyny, ein bod yn ddyledus o rywbeth i ereill. Y mae tadau, mamau, plant, brodyr a chwiorydd, gweision, cyfeillion a dinaswyr—y mae yr oll o'r cyfryw yn ddyledus i ereill. Y mae gwasanaeth, diolchgarwch, trugaredd, a chyfiawnder yn ddyledus i'r sawl a'n hamgylchynant. Y mae galwad arnom i ymddwyn tuag at ereill fel y dymunem i ereill ymddwyn tuag atom ninau, ac i garu ein gilydd fel plant anwyl.

(c) Yr ydym ddyledus i Dduw ein Tad. Yn wir, y mae hyn yn cynnwys pob dyledswydd, oblegyd Duw, fel yr ydym wedi cydnabod, yw ein Tad. Cyfraith Roddwr a Brenin pawb, yr Hwn a wnaeth y byd hwn yr hyn yw, Efe yw yr Hwn a'n gwnaeth ni a'r natur ryfeddol a meddyliol, fel yr ydym gymhwys i'r fath gynnydd mewn doethineb

a daioni, er urddasu ein hunain, ac i fod mor wasanaethgar ag ydym yn mhob modd. Efe sydd wedi pennodi i ni fyw yn deuluoedd, yn gymdeithasau, ac yn fath o wladwriaethau. Efe sydd wedi peru i ni berthyn i'n gilydd, ac i fod yn ymddybynol y naill ar y llall. Y mae, o ganlyniad, ein holl ddyledswyddau, fel rhieni a phlant, fel brodyr a chwiorydd, fel dinaswyr a chyfeillion, yn dyfod oddiwrtho Ef. Yr ystyriaeth hon sydd yn cyssegru ein holl berthynasau â'n dyledswyddau, ac a ddylai wneyd y gair *Dyledswydd* yn air datganol o bob peth sydd gyssegredig a melus, gan gyfeirio, fel ag y mae, at Ewyllys uwchaf Duw, ac at ddaioni puraf dyn. "Swm y cwbl a glybuwyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei orchymynion, canys hyn yw holl ddyled dyn."

Pa fodd, gan hyny, y gellir gwneyd dyledswydd yn rhagorol a phleserus? Y mae yr ateb yn amlwg. Deallwn hi. Mynwn weled ei bod yn iawn a da, yna, dewiswn hi, ac ymserchwn a llawenychwn ynddi. Yn hyn, y mae yr holl wahaniaeth rhwng rhyddid a chaethiwed. Os ydym yn deall ein dyledswydd, ni fyddwn mwyach yn gaethweision i'r hyn y mae y Testament Newydd yn ddoeth yn ei alw yn "weithredoedd meirwon," hyny yw, cyflawniadau heb wybodaeth na dewisiad. Os ydym yn gweled fod ein *dyledswydd* yn iawn, bydded i ni ei chyflawnu; ac os ydym yn gweled fod ein dyledswydd yn dda, bydded i ni ei chyflawnu fel yr hyn sydd yn arwain i drefn, prydferthwch, a chyssondeb. Os ydym, gan hyny, yn ei dewis, ac yn gorfoleddu ynddi—os y deuwn ni yn wir blant i Dduw, cyfraith yr Hwn fydd ein goleuni meithrinol, a gwasanaeth yr Hwn na fydd galed, ond ynddo ei hunan "yn wobr fawr iawn a gwerthfawr"—bydd i'r Tad Nefol goroni ein llafur yn y diwedd, a'n tywys i bob gwirionedd angenrheidiol i'n dyrchafiad moesol ac ysprydol, a'n hiachawdwriaeth yn y byd a'r bywyd hwn, a'r hwn a ddaw. Os ydym, gan hyny, yn argyhoeddedig o'r pethau a nodwyd allan, sef mai ein dyledswydd yw parchu ein hunain, parchu ereill, a pharchu y Tad Nefol, trwy gyflawnu ei ewyllys Ef, yna, nid oes un cymhelliad arall yn angenrheidiol i ni fod yn ddynion Duw, ac awyddus i weithredoedd da. H.

EDEN A GETHSEMANE.

Plant i Anian ydym,
Etto meibion Duw;
Ni, frodorion daear,
Awn i'r nef i fyw;
O'r un gwaed ag Adda
(Dyna'n dynol ffawd);
Cawn, drwy Ddwyfol gariad,
Yspryd Crist ein brawd.

Pwy wrthoda ryddid,
Ogoneddus fraint,
Rhyddid cariad Dwyfol,
Rhyddid pur y saint?
Cyfyng yw'r telerau,
Mae'r ammodau'n llym,
Gan fod Dwyfol ddeddfau
'N para yn eu grym.

Bellach, nid dibechod
Yw segurdod oes;
Cyn y gwisgwn goron
Rhaid in' ddwyn y groes.
Nid, yn ngardd Paradwys,
Hepian drwy'r prydnawn—
Gwylio'n Gethsemane
Gydol nos a gawn.

Trwy ddyoddefiadau
Ein perffeithio raid;
Ond pan wawrio'r boreu,
Ing y nos a baid.
Nos o boen a gofid
Yn ddarpariaeth fydd
At yr hoen a'r iechyd
Ddeuant gyda'r dydd.

I'r rhai fo'n hwyrfrydig,
Trwm a fydd y groes;
Ond i'r rhai ymroddgar,
Ysgafn fydd y loes;
Llefant eu "Gorphenwyd,"
Ant, er maint eu briw,
Trwy ddystawrwydd Angeu
I dangnefedd Duw.

D. R.

HUGH HUGHES,—Y CAMBRIAN ARTIST.

1790—1863.

(Parhad o tud. 56.)

Ceir yn *Seren Gomer*, 1831, ddwy ddarlith a draddodwyd gan H. H. gerbron Cymreigyddion Caerludd. Cafodd yr anrhydedd o ddarlithio dair gwaith gerbron y Cymreigyddion. Pwnc y ddarlith gyntaf oedd,

"Rhyddid Cymdeithas a Llywodraeth;" yr ail, "Trefn cynnaliad ac ysgogiad y rhanau afresymol o'r greadigaeth, yr hon lywodraeth neu drefn a elwir Rhagluniaeth;" y drydedd, "Cyfoeth, dysg, a synwyr;—eu defnydd a'u heffeithiau; y cyfrif a wneir o honynt; ac ymddygiadau y byd mewn perthynas iddynt." Y gyntaf a'r drydedd sydd yn y *Seren;* ac y maent yn teilyngu sylw manwl y Cymro hyd y dydd hwn am yr addysg a'r doethineb goleu geir ynddynt. Mae pwnc y Gymraeg a'r Saesneg yn un sydd o flaen y cyhoedd heddyw. Cynghor H. H. fel Ceiriog oedd, Dysgwch y ddwy. "Pob Cymro," meddai, "a ddysg Saesneg oreu y gallo; ond y mae yn caru yr hen Iaith er mwyn yr hen amserau, er mwyn y cyssylltiad a erys byth rhwng y goffadwriaeth o'r Iaith a'r goffadwriaeth o'r ymdrechiadau a wnawd o blaid rhyddid. Mae pob Cymro sydd yn caru ei Iaith yn caru rhyddid."

Yr oedd Mr. Hughes yn byw o flaen ei oes, ac fel yr ydys wedi awgrymu eisoes, mewn annghydgordiad anobeithiol hollol a'r cyfeillion yr oedd ei goelbren wedi ei fwrw yn eu plith; ac fel yr oedd yn myned yn hynach yr oedd y pellder cydrhyngddynt yn myned yn fwy. Ychydig a wnawd gan flaenoriaid yr enwad, mor bell ag y gellir barnu, i ddeall ei safle ac i sicrhau cymmod. O bossibl fod hyny yn *infra dig.* Etto, ag eithrio y pwnc o lywodraeth eglwysig, y mae lle i gasglu ei fod o ran syniadau wedi cadw yn agos at yr enwad y dechreuodd gydag ef. Edrychai i fyny gyda pharch rhyfeddol at waith a gweinidogaeth ei dad-yn-nghyfraith, y Parch. David Charles, Caerfyrddin, ac efe ddarfu gyhoeddi yr oll o'i weithiau llenyddol. Tebyg iawn fod gwreiddiolder ei syniadau a blaenllymedd ei ymadroddion yn tueddu i enyn gwrthwynebiad. O leiaf, nid yw y gwrthwynebiad yn gyfyngedig i Eglwyswyr a Methodistiaid, ond ceir hyd y nod yr Annybynwyr, os gellir cymmeryd y Parch. William Rees (Hiraethog) yn gynnrychiolydd teg o honynt, yn awyddus i ruthro i'r adwy dybiedig ac i wrthwynebu y rhyferthwy a ddylifai dros flaen ysgrifell Hugh Hughes. William Rees oedd awdwr yr erthygl, "Yr Eglwys yn yr Awyr," yn y *Traethodydd,* am 1855, yn yr hon y gwnawd ymosodiad llym ar H. H. Ysgrifenodd H. H. atebiad, ond ni chafodd yr atebiad ymddangos. Nid rhyfedd, feallai fod H. H. yn chwerw yn ngwyneb y fath driniaeth. Dywed un a welodd yr atebiad fel hyn: "That article was awfully abusive;" ac yn mhellach, "Mr. Hughes was a man of great talent, but full of crotchets." Un arall a ddywed, "His whole history was simply a ridde, I believe, to himself as well as to every one else."

Yr wyf fel hyn wedi ceisio gosod gerbron y ddwy ochr, heb wneuthur cam gobeithiaf a neb. Ond nis gallaf lai na theimlo nad yw Hugh Hughes hyd yn hyn ddim wedi cael y cyfiawnder a ddylai ar law ei wlad; ac os na wnaiff y Methodistiaid eu rhan yn y cyfeiriad hwnw, yr wyf yn gobeithio y bydd y llinellau hyn yn foddion i symbylu rhywun arall i gymmeryd y mater i fyny. Ymddengys i mi mai ei fai mawr oedd bod yn Radical pan nad oedd radicaliaeth yn syniad y bobl. Barnai drosto ei hunan pan yr oedd y mwyafrif yn barnu fel y mynai ereill. Yn fwy tebyg i Wycliff nag i Luther, daliai ei ganwyll fechan yn nghyn pan oedd y tywyllwch mor gaddugol fel nas gallai ei goleuni

lewyrchu ond ychydig. Ond dynion fel Wycliff wnaethant Luther yn bossibl, ac oni bai ffyddlondeb dynion fel Hugh Hughes, ni fuasai ein rhyddid ni heddyw y peth ydyw.

Ond os na wnawn ni barchu enw Hugh Hughes fel Diwygiwr, fe gedwir ei enw yn fyw gan y Saeson er mwyn ei waith fel arlunydd. Cyn rhoi ei hanes fel arlunydd, ni fydd ychydig sylwadau bywgraffyddol allan o le. Enw ei dad a'i fam oedd Thomas a Jane Hughes, i'r rhai y bu pedwar o blant, sef, Hugh, John, Margaret ac Ellen. Claddwyd John yn Mhwllheli, Margaret yn Liverpool ac Ellen yn America. Claddwyd y fam Chwefror, 1802, yn 37 oed. Merch Hugh ac Anne Williams, Meddiant, Llansantffraid, Glan Conwy, ydoedd hi. Bu Hugh yn yr ysgol yn y Meddiant gyda'i dadcu. Wedi hyny, anfonwyd ef a'i frawd John i Liverpool i'r ysgol. Aeth ei dad o Landudno i fyw i Liverpool yn fuan wedi hyn, ond cyn hir bu farw gan adael y plant yn amddifaid.

Tebyg mai yn Liverpool y bu Hugh Hughes ar ei brentisiaeth yn dysgu bod yn *engraver*. Aeth wedi hyny i Lundain, er derbyn addysg mewn *oil painting*. Fe dybia un cyfaill iddo fyned i Lundain tua 1810 neu 1812; ond tebycach ei fod yno cyn hyny. Tuag 1812 tynodd ddarlun o'r Parch. John Evans o'r Bala, yr hwn a welir yn argraffedig yn y drydedd gyfrol o'r *Drysorfa*. Tuag 1818 neu 1819 feallai, dychwelodd i Gymru, o leiaf cawn ei fod wedi treulio rhyw dair blynedd yn y Meddiant (fel cartref) tra yn cyfansoddi ei *Beauties of Cambria*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1823. Dyry y dyfyniad canlynol ryw feddyldrych o fawredd a gwerth y gwaith hwnw: "This volume," ebe'r awdwr ei hun, "contains a greater number of picturesque views in the Principality than any other hitherto published. Fifty-eight of the drawings were taken on the spot, expressly for this work, since the beginning of 1819, by the hand that engraved the whole of the cuts." Mae y gwaith wedi ei gyflwyno i Syr W. W. Wynne, ac y mae rhestr y tanysgrifwyr rhwng 500 a 600, ac yn eu plith enwau prif gelfyddydwyr Prydain ar y pryd. Mewn erthygl ddyddorol iawn, dan y pennawd, "A Welsh Bewick," gan Mr. T. H. Thomas yn y *Red Dragon* (May, 1887,) ceir desgrifiad manwl o'r Arlunydd Cymreig, yr hwn a'i darlunia fel "Welsh Artist," "the worthiest next to Wilson." Rhydd Mr. Thomas farn arlunyddion ereill hefyd. Dywed Mr. Barnett, "His work displays a knowledge of natural form and a masterly handling of the tool hardly second to Bewick, while it is full of delicately varied tones, light and shade, and natural spirit." Mr. G. Pearson a ddywed, "There is a dexterous use of the graver in the white line, tooling of foliage and plants in the foreground, and realistic treatment of natural objects, minute, careful and laborious." Precision, accurate observation and correct delineation are mentioned as main characteristics.

Rhag blino darllenwyr Yr Ymofynydd a meithder, gwell gohirio gweddill ein sylwadau hyd rifyn dyfodol.

R.J.J.

GWROLDEB.

Yn mhlith y Rhufeiniaid, gwnelid gwroldeb yn hanfod pob rhinwedd. Nid yw gwroldeb wedi cael ei ystyried yn rhinwedd bob amser yn mhlith Cristionogion. Meddylid yn hir mai nid ymladd ond ymostwng oedd prif ddyledswydd dyn crefyddol. Tybid fod y Crist ei Hun wedi ei wneyd i fyny o rinweddau goddefol—amynedd, ymostyngiad, addfwynder, gostyngeiddrwydd. Yn holl ddarluniau y canoloesau arddangosid Ef yn plygu ei ben fel brwynen; yn fud fel dafad yn cael ei chneifio. A thrwy lawer canrif, y sant oedd y dyn a ymgiliai o'r byd a'i ddrygau i ymprydio a gweddio, ac achub ei enaid ei hun, yn lle aros yn y byd i ymladd a'i ddrygau, i sefyll yn erbyn ei ormes, ac i herio ei dwyll a'i hoced.

Nid dyma syniad yr Apostol Paul. Yr oedd bywyd iddo ef yn frwydr hir dros yr iawn yn erbyn camwri, dros ryddid yn erbyn caethiwed, dros ddynoliaeth yn erbyn pob peth sydd er niwed iddi. "Gwisgwch holl arfogaeth Duw," meddai. "Ymdrecha ymdrech deg." "Cymmerwch helm yr iachawdwriaeth, a chleddyf yr yspryd." "Ymwrolwch, ymgryfhewch." "Fy mab Timotheus, milwria filwriaeth dda." Golygai i bob ergyd gyrhaedd adref. "Yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo yr awyr," meddai. Pan y tarawai, tarawai i dref. Ond ymdrech foesol oedd.

Nid oedd ynddo elyniaeth tuag at ddynion, oddieithr pan y cynnrychiolent egwyddorion. "Nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd," ond yn erbyn egwyddorion drwg, yn erbyn y dylanwadau ydynt yn tywyllu bywyd, yn erbyn drygioni buddugoliaethus, nad mor uchel ei sefyllfa.

Nid oedd gwroldeb yr Iesu yn oddefol. Aethai allan o awyrgylch tawel ei gartref yn Nazareth i ymladd ag egwyddorion a meddyliddrychau llywodraethol ei oes. Y Phariseaid oeddynt feistri meddwl y genedl, arweinwyr barn y cyhoedd. Dynoethodd a gwrthwynebodd efe hwynt. A'r hyn oedd yn fwy anhawdd, rhaid iddo siomi holl ddysgwyliadau y bobl. Yr oeddent yn cashau y Rhufeiniaid, gyda'u milwyr a'u casglwyr trethi. Aeth efe i dŷ y canwriad Rhufeinig i iachau ei blentyn; gwnaeth gasglwr trethi Rhufeinig yn un o'i apostolion. Yr oeddent yn cashau y Samariaid—gwnaeth efe Samaritan yn arwr hanesyn prydferth. Yr oeddent yn newynu am Fessiah a wnai eu harwain yn erbyn gallu Rhufain—dywedodd wrthynt nad oedd ei freniniaeth ef o'r byd hwn. Yr oedd holl rinweddau yr Iesu yn weithredol, nid yn oddefol. Yr oedd ei gariad yn gariad gweithredol, yn myned oddiamgylch gan wneuthur daioni. Yr oedd ei dduwioldeb yn dduwioldeb ymarferol, yn gwrthwynebu pob ffurfioldeb, pob addoliad defodol, ac yn galw ar ddynion i addoli Duw mewn yspryd a gwirionedd.

Gwroldeb yw y gallu sy'n ein parotoi ni i gwrdd ag anhawsderau, i fyned heb betruso at bob dyledswydd, gan ymgymmeryd â phob gorchwyl fel mae yn ymgynnyg i ni, peidio cilio rhag gwaith heddyw neu

ei daflu hyd 'fory; bod yn barod i siarad y gwirionedd, p'un a yw yn dderbyniol neu beidio; sefyll wrth ein hegwyddorion, er fod arferiad ac awdurdod yn ein herbyn. Dyma wroldeb; ac hebddo, planigyn afiach yw daioni, cysgod gwelw yw rhinwedd, ac nid yw crefydd ond tegan gwag heb un dylanwad bendithiol.

Gwahaniaethir fynychaf rhwng gwroldeb corfforol a gwroldeb moesol. Mae yn well genyf fi ddosparthiad arall. Gwnawn dri math o wroldeb, sef gwroldeb personol, gwroldeb moesol, gwroldeb Cristionogol.

Nid wyf yn hoffi y frawddeg, "gwroldeb corfforol," oblegyd, nid yw yn aml ond dideimladrwydd i berygl. Yn yr ystyr hwn, byddai gan garreg fwy o wroldeb na chreadur; creadur fwy o wroldeb na dyn; ond nid yw dideimladrwydd, sydd yn plymio yn ddall i berygl, yn teilyngu yr enw gwroldeb. Hwnw yn unig sy'n wir wroldeb, yr hwn sydd yn gweled y perygl, ac etto, yn foddlon cwrdd ag ef. Nid oes wroldeb mewn rhedeg i berygl ag ydym yn anymwybodol o hono. Os gall dyn yn wirioneddol ddweyd, "Ni wybûm I erioed beth oedd ofn," gall ddweyd hefyd, "Ni wybûm I erioed beth oedd gwroldeb." Mae y gallu i deimlo ofn yn hanfodol i bob gwir wroldeb. Teimlo ofn a chodi uwchlaw ofn—dyna'r hyn a ddeallwn wrth wroldeb.

Mae gwroldeb personol yn caru perygl er mwyn perygl: nid am ei fod yn anymwybodol o hono, ond am ei fod yn mwynhau y cyffro sydd yn nglyn ag ef. Y fath swyn dyeithr sydd gan ryfel a therfysg brwydr i luaws o ddynion. Mwynheir y gwroldeb hwn hefyd gan y ceffyl, cydymaith ffyddlon dyn, yr hwn a ruthra yn llawen i ganol y berw, nid am ei fod yn ddideimlad o berygl, oblegyd mae yn greadur ofnus, ond am ei fod, fel dyn, yn cael ei godi uwchlaw ofn, gan swyn dyeithr maes y gâd. Sylwyd ar hyn ddwy fil o flynyddau yn ol gan awdwr Llyfr Job, yr hwn a ysgrifenodd am y ceffyl: "Efe a ddywed yn mhlith yr udgyrn, Ha! Ha! ac a arogla o bell ryfel."

Hyn sy'n dynodi y gwahaniaeth rhwng gwroldeb personol a gwroldeb moesol. Rhydd gwroldeb personol y gorfoledd o frwydro: ychwanega gwroldeb moesol orfoledd dyfnach at hyn, y boddhad o ymladd dros wirionedd, cyfiawnder, rhyddid, dynoliaeth. Mae hefyd yn eangu cylch y frwydr: yn ei godi i'r maes mawr lle mae egwyddorion gwirionedd a thwyll yn ymladd yn yr ymdrech fawr rhwng rheswm a rheswm.

Mae trydydd math o wroldeb sydd yn cario yr enaid yn uwch fyth. 'Rwy'n ei alw yn wroldeb Cristionogol, oblegyd, meddai yr Iesu arno uwchlaw mesur. Y gwroldeb yw sydd yn galluogi dyn i geisio gwella y ffurfiau gwaethaf o ddyoddefaint a phechod dynol; gan gredu y gall efe eu gorchfygu. Gwnaeth Iesu Grist ei Hun yn feddyg i wella clefydau gwaethaf yr hiliogaeth. Meddai ar y gwroldeb i ymosod ar bob drygioni, gan gredu y gallasai osod ei holl elynion dan ei draed.

Mae gwyddoniaeth gymdeithasol yn dysgu "*survival of the fittest.*" Ei syniad yw fod deddf cynnydd yn gynnwysedig yn marwolaeth y gwan a'r afiach, ac yn ngorfucheddiad yr iachus a'r cryf. Yn ol y syniad hwn, y peth goreu a all ddygwydd i'r gwan mewn meddwl a

chorff yw marw cyn gynted ag sy'n bossibl, a'r goreu i aros i barhau eu hiliogaeth. Rhesymeg y *system* hon yw fod pob un sydd yn darparu clafdai i'r cleifion, yspyttai i'r gwallgof, mewn gwirionedd yn elyn i gynnydd dynol, trwy gadw mewn bod y sawl ag y byddai yn well iddynt gael eu symmud o'r ffordd.

Mae y syniad Cristionogol yn dysgu golwg wahanol hollol. Dywed, "Os dyoddef a wna un aelod, y mae'r holl aelodau yn cydddyoddef." Edrycha ar yr hiliogaeth ddynol fel un teulu, a maentumia fod y corff yn iach yn unig pan mae pob rhan yn iach. Yn ei hathroniaeth eang, mae yn cefnogi pob ymgais i wneyd y da yn well, y doeth yn ddoethach, yr iach yn iachach; ond ei gwaith arbenig ei hunan yw codi y syrthiedig, iachau yr afiach, helpu y gwan, dysgu yr anwybodus. Dyma yr arwydd a roddodd yr Iesu i'r sawl oeddent yn ewyllysio gwybod ai efe oedd y Messiah: fod y deillion yn cael eu golwg, y cloffion yn rhodio, y gwahangleifion yn cael eu glanhau, y byddariaid yn clywed, y mudan yn llefaru, y meirw yn cyfodi, a newyddion da wedi dyfod i'r tlodion.

PYSGODWYR DYNION.

Fe alwyd Pedr ac Andreas, ac fe alwyd ereill, a throisant allan yn bysgodwyr llwyddiannus. Deallent hwy eu gwaith. Pysgota oedd eu galwedigaeth yn flaenorol. Gwyddent hanes y pysgod a'u harferion, ac yr oeddynt yn gallu dal. Fel pysgodwyr dynion, meddent gymhwysderau ardderchog. Cawsant eu galw o herwydd eu cymhwysderau. Ceisient ddeall dynion, eu hanes, a'u harferion, ac yna, ymosodasant ar yr un gwaith oedd ganddynt, sef dal.

Ychydig amser yn ol, nid oedd y llefarwr yn yr Eglwys Sefydledig ond person, person i gynghori a rhybuddio, ac adeiladu; ond erbyn heddyw, mae wedi myned yn offeiriad, yn ddosparth ar ei ben ei hun, yn cymmeryd arno fod yn gyfryngwr pennodedig rhwng Duw a dynion; yn meddu galluoedd arbenig, ac agoriadau nefoedd ac uffern wrth ei wregys. Mae efe yn yr olyniaeth apostolaidd, ac y mae bysedd yr esgob wedi bod ar ei ben. Ganddo ef, yn ol ei honiad ei hun, ac y mae yn cael cannoedd i'w gredu, y mae'r awdurdod a'r unig allu i fedyddio yn iawn, i weinyddu'r cymmun yn iawn, i bregethu yn iawn; ac nid yw gwaith pawb ereill, nad ydynt o'r olyniaeth, nad ydynt wedi bod dan ddwylaw esgob, ond ffug. Ceir llawer yn caniatau yr honiadau.

O'r tu arall, fe dybia'r Annghydffurfiwr fod pob awdurdod sydd yn meddiant y pregethwr yn deilliaw nid oddiwrth esgob, ond oddiwrth Dduw, a'i fod yn gynnwysedig yn y cymhwysderau at y gwaith. Y mae Duw yn selio'r alwedigaeth trwy ganiatau i'r dyn lwyddiant. A mwy na hyny, mae yr alwedigaeth at bawb. Nid yw y pregethwr i'w

osod mewn dosparth ar ei ben ei hun, ac allan o'r berthynas ddynol gyffredin. Nid yw i fod ond dyn yn mysg dynion, i gyflawnu rhan bwysig, yn wir, yn ngwaith Eglwys Crist; i rybuddio, i gynghori, ac i annog, ond nid i gyflawnu yr oll o waith yr eglwys. Rhagorfraint y Cristion yw ei fod wedi ei alw i blith pysgodwyr dynion. Mae cylch y llefarwr, y llefarwr cyhoeddus, yn bwysig ac yn werthfawr; ond y mae cylchoedd ereill. Ni ddichon y llefarwr lanw pob cylch; tebyg ei fod yn amddifad iawn o'r cymhwysderau i hyny. Ei waith pwysicaf ef yw llefaru'r egwyddorion, a rhoddi cyhoeddusrwydd iddynt trwy fywyd bucheddol. Os gall ragor, yn ddiau, fe wnaiff ragor.

Nid yw y llefarwr ond un: gwnaed ei oreu, ac ni fydd yn llawer; ond gydag undeb a chydweithrediad pob aelod, gellir dysgwyl rhywbeth. Amcan mawr yr eglwys yw perffeithio dynion, ac y mae'r gwaith i bob aelod i geisio dwyn dynion i'r eglwys. Gall yr aelod yn fynych bysgota mewn llyn na fedr yr athraw gael cenad i ddwyn ei rwyd yn agos ato.

Mae yr alwad i fod yn bysgodwyr at bawb, a'r ddyledswydd ar bawb, a'r wobr yn agored i bawb. O waith bendigedig! i ddwyn plant dynion adre'!

Pa nifer o ddynion a ddylent fod o fewn ein cyfundeb ni ydynt allan heddyw ar faes y byd, ac yn teithio llwybr dinystr a cholledigaeth? Ti wr, ti wraig, a ydych chwi eich deuoedd wedi eich dal? A ydych o fewn y gorlan eich dau? Os ydyw un allan, a ydyw y llall sydd o fewn yn teimlo yn gysurus? Chwi, rieni, a ydych chwi yn gysurus tra y mae eich plant allan ar faes anial y byd? A ydyw yr eglwys yn gysurus pan y mae ei phlant mewn perygl?

Mae son am achub eneidiau wedi myned yn beth annymunol ar glustiau llawer. Dywedir fod y byd yn myned rhag ei flaen, ac nid ydym ar fedr amheu nad yw hyny yn wir mewn llawer cyfeiriad. Gwelwn fod tidau caethiwed hen gredoau yn ymdori; ond nid yw fod hyny yn cymmeryd lle heb ei beryglon. Cymmerir rhyddid yn fynych yn achlysur i benrhyddid, ac mae colli hen angorfeydd yn llithro yr ieuanc i siglenydd peryglon a phrofedigaethau newyddion na freuddwydiasant am danynt o'r blaen.

Y mae cymmaint o angen *life-boat* yn ein heglwysi heddyw ag a fu erioed, a chymmaint o angen dwylaw i'w yru allan i achub eneidiau ag a fu erioed. Mor falch yw'r morwr i ddwyn adref yn ei fywydfad un bywyd wedi ei achub rhag angerdd y tonau. Mor falch y teimlem ninau pe gallem feddwl am un, yn unig un enaid, fydd yn dragwyddol ddiolchgar ei fod wedi ei achub o afaelion llygredigaeth a phechod trwy ein hofferynoliaeth ni.

Dylai pob eglwys fod yn noddfa agored i dderbyn crwydriaid dychweledig, a phob aelod yn bysgotwr awyddus hyd y nod yn nghanol peryglon i achub bywydau i Dduw. Plant Duw ydym oll, ac wedi ein creu ar ei lun. Y mae'r alwad at bawb o honom i wneuthur ein goreu i ddwyn ein brodyr cyfrgolledig bob un tuag adre'. Os ydym yn tynu at derfyn ein bywyd, oni fyddai yn hyfryd i ni feddwl ein bod yn ar-

wain un cyfaill yn ychwaneg ar lwybr sydd yn arwain tua'r nefoedd? Yn awr ac heddyw, heddyw ac yn awr, yw yr amser i dori tidau caethiwed, ac i droi'r pechadur o gyfeiliorni ei ffyrdd. Heddyw ac yn awr y mae eisieu gwasanaeth pob dyngarwr i yru ei fywydfad allan yn nannedd y tonau i achub y bywydau, bywydau rhai ydynt anwyl, o afaelion colledigaeth. Y mae y drwg allan, ac, fel llew rhuadwy, yn ceisio am ysglyfaeth i ddiwallu ei wanc, a'u hieuenctyd tyner yn eu hanwybodaeth a'u hanystyriaeth, yn brysio i gyfarfod â'u dinystr. Och fi! i feddwl pa nifer o honynt ydynt yn diflanu yn gynamserol bob blwyddyn! Ac och fi, na fyddai ereill yn cymmeryd rhybudd!

M. P. G.

"AMGYLCHYNAIST FI."

Hyn yw dy gwyn o hyd:—
"Mae 'nghyfiwr yn y byd—
Mae'r ty o glai sy'n cau o'm hamgylch I
Yn gaer anorfod.
Nis gallaf weled Duw,
A'i gariad Ef nid yw
Yn etifeddiaeth dynion marwol sy'
Heb fodd i'w ganfod."

O f'enaid byrbwyll, clyw:
Gan bresenoldeb Duw,
Yn ol, yn mlaen, fe'th amgylchynir di:
Ei law sydd arnat:
Serchiadau dynol cu
A holl waith bywyd sy'
'N agenau i'r goleuni oddifry
I ffrydio atat.

Mae'n llenwi Anian oll,
Ac Amser yn ddigoll,
Yn gystal â'r eangder maith, di-ffin
A'r oes dragwyddol;
Ac yn nghydwybod dyn
Y mae'n datguddio'i hun,
Fel Yspryd Glân sy'n hawlio ein di-flin
Ufudd-dod hollol.

D. R.

PETHAU BYCHAIN.

Am ugain mlynedd y bu Iorwerth Dafydd yn *pointsman* yn Ngorsaf Aberfai, swydd dra phwysig: oblegyd, cynnyddai trafnidiaeth y rheilffordd bob blwyddyn, ac yr oedd rhai o'r perchenogion yn geidwadol iawn gyda golwg ar bob gwelliantau.

"A yw e'n ddyn sobr?"

"O! odi!" oedd barn pawb. "Mae Iorwerth yn eitha' sobr. Rhaid iddo fod yn ei swydd ef: oblegyd, gyda'i deulu mawr, allasai efe ddim fforddio colli ei waith."

Nid am fod y gyflog yn fawr, gallasem ychwanegu: canys y mae yn ffaith od fod y swyddi mwyaf cyfrifol mewn rhai anturiaethau yn cael eu llanw gan y dynion sy'n derbyn y cyflogau lleiaf.

Felly, yr oedd Iorwerth yn cael y gair o fod yn ddyn sobr, ond gallasai Madlen ddweyd 'stori arall: oblegyd, fel yr heneiddiai Iorwerth elai yn fwy hoff o "rywbeth twym" ar noson oer. Ac ar ddyddiau gwyl mawr oedd helbul Madlen i'w gadw ef wrth ei waith ar y *points*. Ond ni wyddai neb am ei helbul. Gallasai Madlen gadw cyfrinach ei gwr: ac yr oedd y cerbydau llawnion yn cael eu gyru yn ddyogel i'r *sidings* i wneyd ffordd i'r cerbydau mwy gwerthfawr mewn bywyd dynol, ac edrychid ar Iorwerth fel esiampl i holl weithwyr y cwmni. Yr oedd Madlen yn ddarlun o ffyddlondeb a glanweithdra. Yr oedd ei hwyth plentyn bob amser yn lân, a phedair ystafell fechan ei thŷ yn daclus dros ben: ond wedi dyfodiad y babi diweddaf,—yr oedd babi bob amser yn nhŷ Iorwerth—nid oedd hi cystal ei hiechyd. Aethai ei nerth i'r un bychan, a thriniaeth ganolig oedd wedi gael. Fel yr elai y tywydd yn oerach ac yn fwy rhewllyd, chwyddasai ei gwyneb, a byddai poenau enbyd yn ei dannedd yn blino ei dyddiau, ac yn peru i'r nosweithiau fod yn effro. Ni wisgai y tŷ bychan ei agwedd brydferth arferol: ac un dydd eisteddai Madlen yn anniddig ger y tân, yn ceisio llaesu ei phoen.

"Sut y'ch ch'i heddy' yma, Madlen Dafydd?" ebai ei chymmydoges, Mrs. Gruffydd, yr hon a drodd i fewn i edrych ei hynt.

"Oh! drwg iawn, wir. Dim llygedyn o gwsg drwy'r nos, ond troi a throsi mewn poenau, a Iorwerth druan yn methu cysgu hefyd."

"Beth yw hwna sydd ar eich gwyneb, Madlen Dafydd?"

"Rhyw eli a ddaeth Iorwerth i mi er mwyn tawelu'r poen, ond ychydig o les mae'n wneyd."

"Y peth goreu ellwch gael, Madlen, yw llon'd cwdyn o *hops*, ychydig *rum* wedi ei dwymo, gwlychwch y cwdyn yn y *rum*, a chlymwch ef am eich gwyneb: ac yr ydych yn sicr o gysgu'n hyfryd heno."

"Mi a'i treiaf ef, Mrs. Gruffydd."

Felly, pan ddaeth Iorwerth adref oddiwrth ei waith, yr oedd y cwdyn gwlanen yn barod gan Madlen, a dywedodd wrtho gynghor Mrs. Gruffydd.

"'Does yma ddyferyn o *rum* yn y tŷ" ebai Iorwerth.

Na. Cymmerai Madlen ofal na chei y fath elyn fod yn agos atynt. Yn awr mae Aberfai yn dref a barn glir gan eu dinasyddion ar bwnc y

gwirodydd. Bob blwyddyn, yn enwedig o flaen etholiadau, taranir yn erbyn y fasnach feddwol ; a phleidleisia mwyafrif o'i phreswylwyr yn erbyn trwyddedu'r drwg. Er gwaethaf y rhwystrau hyn cymmera Iorwerth y botel dan ei fraich, ac ä i chwilio am yr hyn a fydd yn debyg o brofi'n elyn iddo.

Rhwyma Madlen ei gwyneb i fyny, ac ä gyda'r babi i'r gwely. Edrycha Iorwerth fod y plant ereill yn cysgu cyn yr ä lawr i weled a yw y gerbydres naw o'r gloch ar y *siding*, a'r ffordd yn glir i'r *express*. Pan y del yn ol, mae Madlen yn cysgu'n drwm. Ond mae'r babi yn afrywiog : gwel eisieu ei fam, yr hon sydd yn anhawdd ei deffroi, ar ol wythnos o boen. Mae Iorwerth yn gyfarwydd a babanod. Cyfoda yr un bychan, twyma iddo laeth, a dyry fwyd iddo, ac yna, mor dyner a'r fam, efe a'i sŭa i gysgu : ond wrth ei osod i orwedd yn ymyl ei fam, llefa y plentyn drachefn. Felly, mae yn eistedd ac yn siglo yr un bach trwy oriau hirion cyntaf y nos. Mae Madlen yn cysgu, a theimla Iorwerth yn falch ei bod hi yn cael gorphwys o'r diwedd. Mae'r ystafell yn glyd ac yn boeth : ac ar y pentan gerllaw mae y cwpan yn yr hwn y twymwyd y gwirod at wyneb Madlen. Mae awyr y lle yn llawn o'r tawch. Pa brofedigaeth fwy i ddyn blinedig sydd yn cael cysur mewn yfed ?

Ac mae yn brofedigaeth ry gref iddo ef. Gyda'r baban o hyd yn ei freichiau, gafaela yn y botel, a chymmysga iddo'i hun wydraid twym. Cysga'r babi yn ei flaen : gesyd Iorwerth ef wrth ochr ei fam. Mae yn rhy hwyr i fyn'd i'r gwely, ebai wrtho'i hun : felly, eistedda a drachtia a chysga ger y tân.

Pump o'r gloch ! " Mor ddiweddar a hyny " ebai wrtho'i hun. A i'r drws. Mae yr awel yn llem ac oer. Mae yn foreu diflas, gwlyb. Try yn ol, arllwysa wydraid arall o'r peth twym, a chan ei lyncu yn frysiog, ä allan o'r tŷ cyn bod neb yn effro. Wedi ei ddyrysu bron gan y gwirodydd y mae wedi yfed, ceisia feddwl am ei waith : ac fe gofia fod yn rhaid iddo erbyn saith o'r gloch glirio y ffordd i'r *express* basio drwy yr orsaf. Mae cerbydres y noson flaenorol, ar ol gadael amryw o gerbydau ar y *siding*, wedi myn'd i'w thaith, gan adael y *points* yn agored. Gwaith cyntaf Iorwerth yn y boreu yw cau y *points*, fel y gallo'r trên cyntaf fyn'd dros yr heol.

Ond pan gyrhaedda efe ei dŷ bychan gerllaw y *points*, mae mor wresog a chomfforddus ar ol ei siwrne oer fel yr annghofia ei ddyledswydd. Mae tawch yr ysprydoedd wedi ei farweiddio. Nid oes yr yni arferol yn ei ymhenydd. Teimla mor gysglyd. Eistedda i lawr mewn cadair ger y tân, syrthia ei ben yn ol yn erbyn y mur, ac yn fuan mae mewn trwmgwsg. Pa cy'd y pery ei gwsg, ni ŵyr byth.

Deffroir ef gan drwst disymwth—ysgydwad fel pe siglai'r ddaear hyd ei gwaelodion. Mae yn eithaf effro 'nawr. Rhed allan, ac mae'r olygfa sydd o'i flaen yn peru iddo droi a rhuthro fel gwallgof-ddyn tua'r dref. Brysia dros y bont. Ac mae'r bobl yn ymdyru tua'r groesffordd lle mae'r *points*.

" Yr *express* wedi rhedeg i'r cerbydau ar y *siding*," gwaeddai un ar y llall.

"Rhaid fod y *points* yn agored," meddai rhywun.

"Y *points* yn agored," sibrydai Iorwerth: ac yna i'w ymhenydd dyrysedig daeth y meddwl ofnadwy am ei gyfrifoldeb. Ni feddwl mwy. Mae y dorf wedi myn'd heibio.

Dringa ar gaullaw y bont, a neidia i lawr i'r afon ddu, ryferthwyol, a phan y ceir gafael ynddo, mae yn gelain oer.

IOLO MORGANWG A GWERSI EI FYWYD.

Fel y gwyr y rhai hyny sydd ar dir y byw ag oeddynt yn adnabod yr hen Iolo, yr ydoedd o'i febyd yn berson o gyfansoddiad gwanaidd ac afiach, yn gymmaint felly, fel yr ofnai ei rieni ei ddanfon i'r ysgol. Y mae yn ymddangos mai wrth sylwi ar ei dad yn tori cerryg beddau y dysgodd adnabod llythyrenau. Bu ei fam yn gyfrwng i'w addysgu i ysgrifenu a rhifyddu. Rhwystr mawr y pryd hwnw iddo ddyfod yn Gymro, heb son am ddyfod yn fardd enwog ac hynafiaethydd bron dihafal, ydoedd mai Saesneg oedd iaith y teulu; er y cwbl, y Cymry, ac nid y Saeson, gawsant ysgub y blaenffrwyth o'i faes awenawl. Dechreuodd yr alwedigaeth o gabolwr meini pan ond naw mlwydd oed; felly, canfyddir mai yn ngwyneb prinder hamdden y casglodd ei wybodaeth, ac y coethodd ei feddwl. Parhaodd yn ddarllenwr mawr hyd ei ddyddiau olaf. Mwy na'r enwog Elihu Burritt, prin y gwyddai am funydau segur. Pan ar ei daith, byth braidd y gwelid ef heb ei ysgrepan lyfrau ar ei gefn, a'i lyfr yn ei law. Un tro, pan yn dychwelyd o Bontfaen, gan fwriadu troi i heol St. Hilari, i fyned tua chyfeiriad ei gartref, cafodd ei hun, er ei fawr syndod, ar bont Caerdydd, neu Gaerardaf, fel y gelwid y lle y pryd hwnw, Yr oedd Mynydd Stalington, Tresimon, St. Nicholas, Twynyrodyn a'i Deml, a Threlai (neu Dre-Elai), ar ei ffordd, a phobl, anifeiliaid, a cherbydau yn ei basio, ond dim yn tycio. Yr oedd mor anymwybodol parthed allanolion a phe buasai o ran y dyn oddifewn yn absenol o'r corff.

Tra yn gwybod am y fath ddynion ag Iolo Morganwg, yr hwn a "ofnai Dduw ac a barchai ddyn," treth ar ein hamynedd ydyw gwrandaw rhai pregethwyr yn priodoli llwyddiant tymhorol neu amgylchiadau ffafriol i wenau Duw yn ei Ragluniaeth, a'r gwrthwyneb—aflwyddiant—i'w wg. Nid yw yn ymddangos fod cyfeillion Job wedi darfod etto o'r tir, nac yn debyg o ddarfod tra yr esgyna i'n pwlpudau ddynion o syniadau mor gyfeiliornus. Wele brawf hollol o dwylledd y fath gasgliad. Gan Iolo yr oedd tri brawd, y rhai a aethant i'r India Orllewinol, ac mewn amser, daethant i feddiant o gryn lawer o gyfoeth yn nglyn â'r gaethfasnach. Bu farw y tri heb hiliogaeth; felly, syrthiai y cyfoeth yn gyfreithlawn i wrthddrych ein testyn. Dywedai fy mam wrthyf iddo fyned drosodd i'r India gyda'r bwriad o wybod yn fanylach, a dyfod i ryw benderfyniad yn eu cylch, ac wedi gweled sut yr ennillwyd yr arian, teimlad o dosturi cyfiawn tuag at y

caethion a'i rhwymodd i lefaru y geiriau canlynol:—"Yr holl arian hyn ydynt werth gwaed, gwerth esgyrn, giau, cyhyrau, ac eneidiau dynion. Ni fynaf ddim o honynt—ni chaiff fy mhlant ddim o honynt. I ba le bynag yr elont, dygant felldith Duw Hollalluog i'w canlyn. Myfi a'u cadwaf hwynt, a'r felldith a'u canlynant, oddiar fy mhen fy hun a'r eiddo fy mhlant. Ni chant groesi gorsing fy nhŷ, na chrogi oddiwrth fy nenbren." Oddigerth digon i dalu ei gludiad yn ol i'w wlad, fe ddywedir wrthyf iddo ranu y cwbl rhwng y caethion cyn ymadael.

Wele enghraifft o dri chaethfasnachwr yn llwyddo yn y byd, ac o'r cyfiawn Iolo, yr hwn a feddai ar galon lawn o deimlad rhyddgarol, yn methu llwyddo. Prin y credaf fod y tri brawd yn fwy yn ffafr Duw na'r hen naddwr meini. Cawsant hwy eu gwynfyd yn eu bywyd, yntau ei adfyd. Ond beth pe cawsai llawer un yn ein dyddiau ni—ïe, llawer pwyllgor eisteddfod gapelawg, ïe, llawer eglwys sydd yn proffesu dal i fyny luman Gair Duw, y cyfleusdra a gafodd Iolo Morganwg i ddyfod yn gyfoethog, tybed y gwnaent, fel efe, wrthod yr arian am mai gwerth gwaed, &c., oeddynt? Gadewch i ni weled. Ymofynwn gwerth beth yw cyfoeth y tafarnwr—gwerth pa nifer o lygaid duon, o wynebau gwelwon, o draed noethion, o garpiau, o dai gweigion, o lettya mewn gweithdai, yspyttai, gwallgofdai, a charchardai; o farwolaethau cynamserol, o ddynladdiadau, o ddienyddiadau, ac o eneidiau damniedig? Pwy gymmer arno ateb? Ac etto, pennodir dynion i fyned at y tafarnwr i geisio tanysgrifiad at yr eisteddfod a'r cyfarfod blynyddol; ac a rhai mor bell a'i gynnyg i fod yn gadeirydd mewn cwrdd cyhoeddus, gan feddwl cael rhodd yn nghysgod yr anrhydedd. Yn awr, cyfyd y cwestiwn, Os melldith ellir ddysgwyl oddiwrth werth gwaed mewn cyssylltiad ag amgylchiadau y bywyd presenol, a ellir dysgwyl i fendith ddylyn gwerth gwaed mewn cyssylltiad â chrefydd? Neu, a yw crefydd yn llai cyssegredig nag amgylchiadau bydol? Ai tebygol fod aberth yr annuwiol wedi peidio a bod yn ffiaidd yn ngolwg yr Arglwydd, neu a edrych Efe gyda gwedd fwy boddhaol ar werth cnawd neu rodd putain? Na wna, mae yn sicr genyf, oblegyd wrth gymmeradwyo yr aberthau neu yr offrymau a gyflwynir iddo, y mae Duw yn cymmeradwyo y modd y daethpwyd i feddiant o'r cyfryw. Er enghraifft, os yw yn cymmeradwyo rhodd y cyflogydd a gamattalia gyflogedig, yna, y mae yn edrych gyda boddhad ar y cyfryw gamattaliad. Yn y goleu hwna yr edrychai Iolo Morganwg ar y cwestiwn mor bell yn ol a dechreu y ganrif hon. Wrth dderbyn yr arian, tybiai yn ddiddadl y buasai hefyd yn cymmeradwyo ymddygiad ei dri brawd. Yn ngwyneb cyfyngder ei amgylchiadau, yr oedd y brofedigaeth mor fawr, fel braidd na synwn ei fod wedi medru cadw mewn golwg ganlyniad ei ymddygiad. Pwy ddywed nad oedd ofn Duw gerbron ei lygaid ar y pryd? A phwy a haera nad oedd, y foment y gwnelai ei benderfyniad i wrthod y ffortiwn, yn credu yn ddiysgog fod Duw y nefoedd yn dal yn ei law awenau Rhagluniaeth? "Llaw y diwyd a gyfoethoga," medd y gwr doeth; eithaf gwir, ond nid bob amser mewn aur ac arian. Gadawodd yr hen Iolo ar ei ol drysorau mwy

parhaol, trysorau a gadwant ei enw mewn coffa parchus tra y parhao y Cymry yn genedl.—*O'r Drych.*

NODYNAU GWASGAROG.

SOCINIAID.

Y mae Cadrawd yn y rhifyn diweddaf (Mawrth) o *Gyfaill yr Aelwyd*, yn galw aelodau cynnulleidfa y Gellionen yn Sociniaid. Yr oeddwn yn wastad wedi arfer ystyried Cadrawd fel dyn o ddysg ac o ddawn fwy na'r cyffredin—boneddwr a Christion goleuedig, ac felly, yr oedd fy syndod yn fwy ei fod yn wirfoddol yn galw enwau cas. Yr oedd y Sociniaid yn talu addoliad i Iesu Grist, tra y gwyr Cadrawd nad yw Undodiaid yn addoli ond un Duw—y Tad, a gwyr hefyd fod ganddynt Ysgrythyr dros hyny. Y mae yn hen bryd fod yr enwad a eilw ei hun y mwyaf goleuedig yn ceisio bod yn fwy *true* i'r hyn a hona. Fe wyr offeiriad Eglwys Loegr nad yw miliwn o flynyddoedd ddim yn ddigon i gyfrif am y ddaear, na chan' mil yn ddigon i gyfrif am hanes dyn ar y ddaear, ac etto, cawn ef a'i hiliogaeth yn parhau i ddysgu fod holl hanes y ddaear i'w gyfyngu i chwe' mil o flynyddoedd! P. P.

ADOLYGIAD.

Dear Sir,—I was pleased to see in the last number of the Ymofynydd a translation of one of the services in Mrs. Bayle Bernard's delightful little book. I may state that at our Sunday School (Nottage), we have introduced them for the closing of the school for some time, and they have had a beneficial result in securing the attention of the younger classes.

We always experienced a certain amount of difficulty in keeping the young children perfectly quiet, especially during the *closing* prayer, when they were getting anxious to go out. Now, that difficulty has vanished, and even the children look forward with pleasure to taking part in the prayers. More than that, I believe this mode of prayer has a beneficial effect in making our young people feel the need of *personal* appeal to God, for each one prays for himself, and all for one another. Also, I believe that the audible expression of simple and suitable prayers helps to cultivate the devotional spirit, in young people more especially.

In case any school superintendents may care to know something more about the book before deciding to send for a specimen copy, perhaps I may be permitted to give the subjects of the fifteen services in the order in which they appear:—1. "Whom shall we serve?"

2. "How must we serve God?" 3. "All good is from God." 4. Penitence and pardon. 5. Faith. 6. Love. 7. Prayer. 8. Praise and thanksgiving. 9. Duty to parents. 10. Truthfulness. 11. Forbearance and forgiveness. 12. The Blessed Life. 13. God's Wonderful Works. 14. God provides for all. 15. On occasion of death.

Again, I cannot refrain from saying that I feel thankful that we have found a means of securing the children's attention during the most important portion of the school hour.

Yours fraternally,

Newton, March 3, 1890. W. J. Phillips.

BODOLAETH DUW.

Mr. Gol.,—Gallwn feddwl fod erthygl Mr. Jones ar yr uchod yn y rhifyn diweddaf o'r Ymofynydd yn hunan-atebol; ac felly, nid oes raid iddi wrth gymmeradwyaeth nac annghymmeradwyaeth neb. Ond yn ngwyneb ei fod, dybiwn I, gydag holl ddifrifoldeb ei enaid, yn gwahodd atebiad i'r gofyniad, "A oes gan fod meidrol ryw syniad am Fod Anfeidrol?" mi a geisiaf ei ateb.

Fy atebiad, yn y modd mwyaf diamwys, yw, fod gan fod meidrol syniad am Fod Anfeidrol. Os na, yna nid oes wahaniaeth rhwng Undodwr a Thrindodwr. Ni fyddai gan neb fwy o wrthwynebiad i'w alw yn Drindodwr nâ'r Parch. T. T., Pantydefaid. A phaham? O herwydd fod ei syniadau am gymmeriad y Tad mor hanfodol wahanol i eiddo Spurgeon. Y mae gan T. T. a Spurgeon, gan hyny, eu syniadau am Dduw, ond nad ydynt yr un peth. Y fath *reflection* ar garictor y Tad yw, fod un o'i blant yn gofyn cwestiwn mor ffol. Yn ngwyneb nad yw Mr. Jones a mi yn deall ein gilydd gyda golwg ar y sylfaen na'r oruwchadeiladaeth, nid yw o un budd i ni fyned yn mhellach.

Llwynypia. John Morgan.

HUMPHREY BROMLEY.

Yn *Nyheninen* Gwyl Dewi, 1890, t. 11, enwir Humphrey Bromley, "pregethwr Socinaidd," fel un y bu Cynddelw yn yr ysgol gydag ef, ac fel un a adawodd argraff ddofn ar ei feddwl. Gydag ef y dysgodd Cynddelw rammadeg. Yr un, wrth bob tebyg, oedd H. B. ag a gyhoeddodd a ganlyn:—"*Pregeth ar Undodiaeth Duw*; gan Humphrey Bromley; yn ddiweddar Pregethwr Cynnorthwyol yn Nghymdeithas Wesleyaidd. 1822." Bu mab o'r un enw yn yr ysgol yn Nghribin yr un amser a rhai o duarllenwyr yr Ymofynydd. Pwy ychwanega?

Q. Q.

DARGANFYDDIAD HYNOD

Yn ddiau ydyw eiddo Mrs. Watts Hughes. Dywedir ei bod, wrth ganu mewn *tube* neu bibell, yn alluog i gynnyrchu llun blodau o wahanol fathau. Yr wyf wedi clywed am rai o'r rhai hyn wedi eu fframo. Peth hynod ydyw y cyssylltiad hwn rhwng swn a ffugrau, ac etto, gellir dychymygu cyssylltiad rhwng swn a *mathematical figures*, ond am ddarluniau coed a blodau, nid oes genyf ond dywedyd fod yr hanes yn hynod, hynod iawn. Cynnyrcha un sain un ffurf, a sain arall ffurf arall. Cawn glywed rhywbeth manylach etto efallai.

S. N. S.

ARIAN Y DADGYSSYLLTIAD.

Cynghor da yw peidio rhifo yr wyau cyn eu bod wedi eu dodwy; etto, hyny fynwn ni wneuthur o hyd er gwaethaf llawer camsyniad. Daliwn ni, fel Annghydffurfwyr, mai y deyrnas bia'r degwm, ac mai y deyrnas sydd i benderfynu i ba gyfeiriad y mae arian y degwm i fyned. Nid yw'r degwm i gael ei ddyddimu: ni fyddai hyny ond gwneuthur yn eiddo personol yr hyn sydd yn awr yn eiddo y genedl. Gwell hefyd gadael y degwm lle y mae: nid oes dim yn fwy dyogel nâ thir; ond rhodder ei ffrwyth i ysgafnhau y trethi. Nid drwg fyddai ei droi er sicrhau addysg rydd. Gwell nâ'i adael i gael ei drefnu o Lundain fydd gadael y dosparthiad o hono i'r Cynghorau Sirol, dan delerau neillduol. Nid yr un ydyw angen pob sir, ond yn mhob sir y mae'r wybodaeth oreu o angen y sir.

T. L. R.

MESUR Y DEGWM.

O'r braidd yr ydym yn dysgwyl oddiwrth Weinyddiaeth Doriaidd un mesur ar bwnc fel yr uchod a rydd foddlonrwydd cyffredinol. Ni wnaiff yr hyn a foddia yr offeiriaid foddio ar yr un pryd y meistr tir a'r deilad. Y wlad bia'r degwm, ac ni fydd y wlad yn foddlon gweled y degwm yn myned i boced y meistr a'r deilad. Pwnc cynnil ydywr pwnc, a sicr ei bod yn well oedi nâ gadael i'r pwnc gael ei benderfynu ar hyd llinellau fyddant yn amddifadu'r iawn berchenog o'i eiddo. Bydd yn rhaid newid llawer ar y mesur newydd cyn y rhydd foddhad.

M. P. G.

GOSOD BRI AR Y GYMRAEG.

Mae y Gymraeg yn ddiamheu wedi bod yn gorwedd megys hunllef ar ystumog rhai Cymry; ond y mae yr adeg yn dod pan yr hwtir ac yn gyfiawn yr yspryd a gynnyrcha hwnw allan o'r deyrnas. Yr ydym wedi cael digon ar Ddic Sion Dafyddiaeth a'r fath Saesneg a hwn:

What yw bodder mwdder yw cantw spêctw mê! Mae yn amlwg y bydd *market value* y Gymraeg yn uchel yn y man. Cawn ddewis ein dynion ein hunain i'n swyddi ein hunain ar gyfrif y ffaith eu bod yn gwybod y Gymraeg ac nad oes arnynt gywilydd eu harddel. Yr Aelodau Seneddol, Aelodau y Cynghorau Sirol, pa'm na ddylent, os yn gyfartal ar ystyriaethau ereill, gael eu dewis o blith y rhai a fedrant siarad y Gymraeg? Felly yn unig y cawn anerchiadau yn iaith y werin Gymreig. T. L. R.

PIGOTTIAETH.

Brwnt oedd gwaith y *Times* ar y cyntaf, a brwnt y mae wedi parhau. Gyda galluoedd annghymharol, a dylanwadau anarferol y tu cefn, gwnaeth ei oreu i ddinystrio Parnell trwy gelwyddau ofnadwy; ond syrthiodd y *Times* i'r pwll a ddarparwyd ganddo i Parnell. Mor debyg i Haman—yn colli ei fywyd ar y crogbren a barotowyd i Mordecai; gwaith melldigedig ydyw dinystrio cymmeriad dyn. "Who steals my purse steals trash, but he who filches from me my good name robs me of that which not enriches him and leaves me poor indeed." Gwnaed yr holl ddrwg hwn er mwyn amcan politicaidd, er mwyn rhwystro *Home Rule*. Ni ellir rhwystro *tide* y môr i ddyfod i fewn ag ysgubell. Fe dreiodd Mrs. Partington, ond 'lwyddodd hi ddim. P. P.

Y TISIANWST NEU'R ANWYDWST.

Mor bell yr olreinir achos ac effaith weithiau. Cawn fod rhywun yn dwyn y teulu dynol dros gyfandiroedd byd yn agos iawn i'w gilydd yn hanes ymweliad y Tisianwst. Pwy allasai feddwl fod cyssylltiad rhwng gorlifiad y *Yellow River* yn Ngwanwyn 1888 a'r Tisianwst ar un o'n cyfeillion yn Rhydychen, dyweder, yn Mawrth, 1890; ond felly y mae yn ol Syr Robert Rawlinson a Dr. Symes Thomson. Boddwyd tua saith miliwn o'r Chineaid yn 1888, a'r *microbes* o'u cyrff dadfeiliedig hwy ydynt yn anmhuro'r awyr ac yn anmharu iechyd breninoedd a thywysogion a phrif weinidogion yn Lloegr, yn yr Eidal, yn Mexico, y bobl fawrion a'r bobl dlodion yn gyffelyb, gan wneuthur y clefyd yn *respectable*, a dangos gwiredd yr hen ddywediad ein bod oll yn aelodau i'n gilydd. "One touch of nature makes the whole world kin."

T. L. R.

Y BONT AR Y "FORTH."

Tebyg geny' mai dyma'r tipyn peirianwaith ardderchocaf a welodd y byd erioed. Bydd y trên yn rhedeg 160 troedfedd uwchlaw uwchlif y môr. Mae yn gyfansoddedig o *steel*, ac y mae o hwnw 50,000 tun-

ell. Defnyddiwyd 21,000 o dunelli o *cement*, 707,000 troedfedd o ithfaen (*granite*), a miliwn o droedfeddi o goed yn y scaffaldau, &c. Bydd y rhanau o'r bont fyddant yn galw am baint yn 21 cyfair. Defnyddiwyd 8 miliwn o *rivets*, y rhai, pe gosodid hwy ochr-yn-ochr, a fyddent yn 380 milldir o hyd, a byddai'r *plates* a ddefnyddiwyd yn cyrhaedd 44 milldir. P. P.

PREGETHU CRIST A CHRIST YN UNIG.

Mr. Gol.,—Y mae yn ddrwg genyf wrth-ddweyd yr hyn a ddywedodd fy nghyfaill, y Parch. J. Davies, Alltyplaca, mewn perthynas i bregethu Crist yn unig yn eich rhifyn diweddaf. Mewn hunan-amddiffyniad, yr wyf yn rhwym o wneuthur hyny. Nid wyf byth yn danfon dim i'r wasg os na fyddaf yn dra sicr parth cywirdeb y cyfryw. Bydded hyspys i J. J., a phawb deimlant ddyddordeb yn y mater, mai y Parch. J. Davies, Alltyplaca, *yn unig* sydd yn gyfrifol am y frawddeg, "Pregethu Crist yn unig." Yr wyf yn berffaith sicr i Mr. Davies ddefnydddio y frawddeg, oblegyd cefais fy synu yn ddirfawr pan glywais y geiriau. Dywedais wrthyf fy hun, "Wel, nid wyf yn ystyried mai pregethu Crist *yn unig* fydd fy nghenadwri I yn Llandyssul." Cafodd y geiriau, "pregethu Crist *yn unig*," argraff ddofn ar fy meddwl. Gan nad yw Mr. Davies na minau yn iawn, gofynwn pa un o honom sydd yn camsynied? Caffed ereill farnu. "Wrth dystiolaeth dau o dystion, neu wrth dystiolaeth tri o dystion, y bydd safadwy y peth." Gofynais i dri dyn cyfrifol yn Llandyssul—cyfeillion i Mr. Davies a minau, y rhai oeddent yn bresenol yn y cyfarfod—a ddefnyddiodd Mr. Davies y frawddeg? Atebasant, heb un petrusder, "Do." Os addefa Mr. Davies mai *lapsus linguae* oedd y frawddeg, pobpeth yn dda; dyna ddiwedd ar y mater. O'r tu arall, os parha i ddweyd mai nid efe yw awdwr y frawddeg, y mae y tri boneddwr uchod yn barod i roddi eu henwau yn gyhoeddus er profi eu hawduraeth.

Yr eiddoch, &c.,

Llandyssul. W. J. Davies.

YMWELIAD A'R AMERIG.

Barchus Olygydd,—Fel ag mae'n wybyddus i chwi, o bossibl, darfu i mi dalu ymweliad ag America yn niwedd yr Haf a dechreu yr Hydref diweddaf. Dichon y byddai'n dderbyniol i ddarllenwyr Yr Ymofynydd gael ychydig o hanes yr hyn a welais ac a glywais yn ngwlad fawr gostwng haul. Os bydd cyfres o lythyrau o bryd i'w gilydd yn rhoddi desgrifiad o'm profiad yn ystod fy nhaith a'm hymweliad, yn eich tyb arolygol, yn ddigon dyddorol ac i bwrpas i gael lle ar dudalenau gwerthfawr Yr Ymofynydd, bwriadaf eu gosod at eich gwasanaeth.

Byr a digon anmherffaith fyddant. Efallai mai goreu i gyd fydd eu byrdra o herwydd eu hanmherffeithrwydd. Beth bynag am hyny, chwychwi, fel golygydd, gaiff fod y barnwr anffaeledig yn hyn! Yr wyf fwy nag unwaith, yn ol barn yr hen olygydd, wedi addaw anfon gair neu ddau i'r Ymofynydd pan y cawn hamdden. Ond rywfodd neu gilydd, nid oes dim hwyl i ysgrifenu pan ddaw hamdden, ac os ceir ambell i hanner awr o leser, y mae y "cacoëthes scribendi" wedi ehedeg! A dweyd y gwir, yr oeddwn yn gobeithio y buaswn wedi bod yn alluog i ysgrifenu yn mhell cyn hyn. Ond yn fy absenoldeb o dri mis, darfu i'm gwaith groni'n ddirfawr, ac er pan ddychwelais, yr wyf wedi bod yn bur ddiwyd yn ceisio ei orddiwes—*stealing a march*, fel y dywed y Sais—ond heb fawr lwyddiant. Y mae genyf ryw frith gof am *sum* yn un o'm caseion lyfrau—*Colenso's Arithmetic* (?)—pan yn y Vale of Ayron Academy er ys llawer dydd. Digon tebyg na ddarfu i mi ei gweithio allan yn *all right* o herwydd *attractions* at y bêl-droed neu chwareu "bando" yn Nghae Nani neu Ddol Tycam! Rhywbeth yn nghylch Achilles yn methu gorddiwes y *tortoise* oedd, onide? Wel, mewn cyfeiriadau ereill, yr wyf yn cael fy mlino o hyd gan yr un hen *broblem*. Po fwyaf fyddaf yn ymdrechu cyflawnu dyledswyddau arbenig ac uniongyrchol, rywfodd neu gilydd, mwyaf i gyd ymddengys ar ol heb eu cyflawnu. Fel Sisyphus a'r garreg, pan bron cyrhaedd pen y bryn a gorphwysfa dawel, i lawr i waelod y cwm yr äi'r garreg, gan beru cymmaint o waith ag erioed.

Tra yr wyf fi yn "ymlusgo o glun i glun" ar hyd ystrydoedd culion ac afiach y ddinas hon, ac yn myned i fyny ac i waered y *garrets* a'r *cellars*, y mae meddwdod ac anfoesoldeb yn *marchio* ar y *double quick*—yn rhedeg heibio i mi, ac yn trechu ein hymgeision goreu i attal y dylif. Maent fel cicaion Jonah, yn tyfu mewn noswaith, ond nid mewn noswaith y darfyddant. Felly y mae fy ngwaith yn tyfu dan fy nwylaw—rhywbeth yn debyg i gaseg eira—*Vires acquirit eundo*.

Hyn yw fy esgusawd na fuaswn wedi ysgrifenu yn gynt. Yn y Gauaf y mae'r gwaith trymaf arnom yma. Y mae hyn bron drosodd y tymhor hwn, a "dyma fi ar y cyfleusdra cyntaf yn cymmeryd fy ysgrifell yn fy llaw," ac felly yn y blaen. Dyna fel ein haddysgwyd gan ein hathraw godidog, Mr. Rees, i ddechreu llythyr er ys llawer dydd, ac nid wyf wedi dysgu gwell hyd yn hyn. Mae hen ddywediad, "Hanner gwaith yw dechreu." Wel, yr wyf wedi dechreu yn rhywsut, fodd bynag. Rhagymadrodd, fel y dywedir, er nad yw yn ymddangos fod fawr cyssylltiad rhyngddo â'r pwnc dan sylw. Wel, maddeuwch hyn, ac mi geisiaf gadw mwy at y testyn o hyn allan.

Llwyd ap Ryffydd.

Manion ac Hanesion.

"Heb syched, ni fedrwn yfed ond ychydig." Mae yr athraw a lwydda i gynnyrchu cariad at ddarllen yn ei ysgolheigion, yn gwneuthur mwy drostynt na phe dysgai iddynt gynnwys ugain o lyfrau, os heb gariad at ddarllen.

Ionawr 29, cynnaliwyd cyfarfod yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, er rhoddi i'n brawd ieuanc, Mr. John Jones, gydnabyddiaeth fechan o'n parch iddo ar ei ymadawiad i gymmeryd gofal yr Eglwys yn y Gellionen. Llywyddwyd gan Mr. Joseph Jenkins, a llefarwyd yn uchel iawn am rinweddau Mr. Jones gan amryw; yn eu plith, gan y Parchn. E. W. Lloyd a J. J. George. Cyflwynwyd yr anrheg, dros y gynnulleidfa ac ychydig gyfeillion ereill, gan Jenkin Llewellyn, y diacon hynaf. Cynnwysent werth dros chwe' phunt o lyfrau. Dymuniad pawb oedd fod Mr. Jones yn cael llwyddiant mawr yn ei weinidogaeth, ac fod y llyfrau yn help i'w lwyddiant.—*Un oedd yno.*

Brondeifi.—Anrhegwyd y *Band of Hope* gan ei hyrwyddwyr, a rhai o aelodau ereill yr eglwys uchod, â gwledd o dê a bara brith yn Ysgoldy'r Capel, prydnawn Chwefror 25ain, pryd y cyfranogwyd o'r danteithion gan tua 50 o blant—yr oll, oddigerth dau neu dri, yn perthyn i'r eglwys hon. Wedi'r oll gael eu gwala a'u gweddill, cliriwyd o'r ystafell am ychydig i chwareu y tu allan. Ar ol gorphen hyny, ymgynnullwyd drachefn i fyned drwy eu gwaith mewn adrodd a chanu, yr hyn a wnaethant yn rhagorol; ac ar y diwedd, rhanwyd *oranges* rhyngddynt. Felly, mwynhawyd y wledd gyntaf—nid yr olaf, gobeithio—yn odidog Nid oedd ond gwahoddediglon yn y cyfarfod hwn Yr ydym dan rwymau i ddiolch i'r ddau frawd, Mr. Jenkin Jones a Mr. D. T. Davies, am eu hymdrech gyda'r plant; a nerth a gaffont i fyned rhag eu blaen gyda'r gwaith da. Y mae canlyniadau daionus i'w gweled eisoes; ond drwy ddyfalbarhad, caiff ei goroni â llwyddient. Drwg genym fod dau o gefnogwyr gwresog yn absenol o herwydd afiechyd, sef y Parch. R. C. Jones a Mr. Arthur Price, Heol y Bont. —*Hevin.*

Y mae yn dda genym hyspysu fod Mr. John Thomas, Factory, Talgarreg, wedi ei appwyntio yn aelod o Fwrdd Ysgol Llanarth, yn lle y Parch. D. Lewis Lloyd, Aberhonddu.

Darfu i'r Parch. W. J. Davies, Llandyssul, draddodi ei ddarlith ar Ddadgysylltiad yr Eglwys yn Nghymru i Gymdeithasau Rhyddfrydig Cangen Glan Clettwr a Thalgarreg, yn ddiweddar. Y Parch. T. Thomas oedd yn llywyddu yn Assembly Rooms yr Alltyrodyn Arms, a'r Parch. Mr. Davies, Pisgah (A.), yn Ysgoldy y Bwrdd, Talgarreg. Trodd y cyfarfodydd allan yn llwyddiannus iawn. Rhoddodd y *Carmarthen Journal* gurfa dda i Mr. Davies, Cadben Davies, Rhydowen, ac ereill.

Cynnaliodd Eglwys Llwynrhydowen *musical service* nos Sul, Mawrth 15fed. Dyma'r gwasanaeth cyntaf o'r fath yn Sir Aberteifi. Yr oedd capel eang y Llwyn yn orlawn, oddigerth y *gallery*. Canodd côr y lle, dan arweiniad Mr. John Jones, Felin, Rhydowen, yn dda odiaeth. Adroddwyd darnau cyssegredig yn ardderchog gan ddeiliaid yr Ysgol Sul, a chafodd araeth y gweinidog a'r canu cyssegredig dderbyniad brwdfrydig iawn. Melus, moes etto.

Methodd Cor Capel-y-Fadfa gynnal eu gwasanaeth cerddorol yr un dydd, o herwydd yr *influenza*. Cynnelir y cyfarfod nesaf can gynted ag y gellir.—*Cyfaill.*

Bu farw cardotyn yn ddiweddar yn Rhufain gan adael dwy fil o bunnau i'w blant, ffrwyth cardota am ddeng mlynedd ar ugain. Mae cardota yn talu ei ffordd i rai!

Dywed un o'r newyddiaduron meddygol fod y dybaco yn gwneuthur drwg mawr yn mhlith bechgyn ieuainc.

Dywed Spurgeon fod gan rai ddwy grefydd, un i'r pwlpud, a'r llall at wasanaeth cartref; am dano ei hun, nid yw yn credu dim ond mae'n bregethu nac yn pregethu dim ond mae'n gredu.

Nid rhyw gyflym iawn y mae'r arian yn dyfod i fewn at Gapel y Groes. Gobeithiwn nad yw ein brodyr Seisnig ddim wedi gwario arian mawr i brynu llinynau i ddyogelu eu llogellau.

Yr oedd Joseph Sutherland, a fu farw yn ddiweddar, yn bresenol yn mrwydr Trafalgar, 84 mlynedd yn ol.

Mae y Feibl Gymdeithas wedi gyru allan yn 86 mlynedd ei bodolaeth dri ugain a deuddeg a hanner o filiynau o ranau o'r Beibl.

Dywed y Proff. J. E. Lloyd o Aberystwyth fod Dewi Sant yn ymattaliwr oddiwrth gig yn gystal ag oddiwrth win; hyny yw, yr oedd yn vegetariad ac yn ditotaliad.

Mae Owen M. Edwards, Rhydychen, yn hawlio y llinell—

"Beibl i bawb o bobl y byd"

i Robet Wiliam o'r Pandy, un o feirdd Penllyn.

Yn ol Llew Llwyfo fe anwyd y Doethawr John Dafydd Rhys (y grammadegydd enwog) yn Llanfaethlu yn 1532.

Marwgofion.

Dydd Nadolig diweddaf, bu farw Sarah Davies, Troedyrhiw, Crugyreryr, yn 78 oed. Bu yn nychu am beth amser cyn ei marwolaeth, ond dyoddefodd ei hanhwylder yn berffaith amyneddgar. Yr oedd yn aelod selog yn Nghapel-y-Fadfa yn ystod ei hoes. Pan y dechreuodd y gweinidog presenol ei waith bugeiliol yn Nghapel-y-Fadfa, dywedodd Mrs. Davies wrtho mai efe ydoedd y degfed oddiar pan yr oedd yn cofio. Os gwir hyn gwelir nad yw cenedlaeth weinidogaethol y Bwlch wedi bod yn hir iawn. Y dydd Sadwrn canlynol daeth tyrfa luosog i'r angladd. Pregethodd y Parch W. J. Davies yn y capel. Bydded i'r perthynasau gofio fod coron y gogoniant yn addawedig i ffyddloniaid Duw ar y ddaear.

Chwefror 5, yn 26 mlwydd oed, Ben Davies, yn ei arosfan yn Merthyr Tydfil. Y dydd canlynol cludwyd ei ran farwol i'r orsaf, er ei gymmeryd i dy ei anwyl fam yn Llandyssul. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn hen Gladdfa'r Llwyn wrth ochr ei dad, a gweinyddodd y gweinidog yn y ty ac ar lan y bedd, a'r Parch. T. Thomas yn y capel. Yr oedd yr ymadawedig yn gyfaill calon i mi, a gwelaf hi yn chwithig iawn yn y capel ac ar yr heol hebddo. Mynychai gapel Twynyrodyn yn rheolaidd, ac yr oedd ganddo ddosparth yn yr Ysgol Sul, o'r hwn a phob gorchwyl cyssylltiedig â'r achos da yr oedd yn ofalus iawn bob amser. Pregethodd y Parch. Nestor R. Williams yn bwrpasol ac effeithiol iawn, er fod cyfeillion yr ymadawedig yn ddigon pruddglwyfus yn barod, ond yr oedd geiriau Mr. Williams yn peru i ni fod yn fwy o ffryndiau i'r brawd Ben nag y meddyliasem y gallem fod pan yr oedd yn ein mysg. Hefyd, canwyd yr emyn a fawr hoffai efe—"Di, dyner wawl" ("Lead, kindly light"). Bu yn ngwasanaeth y Mri. Morgans & Co., Wine and Spirit Merchants, am yn agos i chwe' mlynedd fel ymdeithydd *(traveller)*, ac yr oedd yn un o'r dynion mwyaf hawddgar. Hoffid ef gymmaint gan y cwsmeriaid, fel yr oedd braidd yn anmhossibl iddynt omedd eirchion iddo. Eangodd gwsmeriaeth ei feistri yn enfawr yn yr amser y bu yn eu gwasanaethu, a theimlant eu colled ar ei ol fel dyn ieuanc dymunol a diwyd. Bydded i'w anwyl fam a'i holl berthynasau alaru yn gymmedrol, a chofio mai ewyllys Duw a gyflawnwyd. Yr hwn fo yn barod pan alwo Efe a gaiff fedi o'r gwynfyd tragwyddol, a chredaf yn ddibetrus fod ein cyfaill yn berffaith barod i'r alwad.—*D. O. Evans, Merthyr.*

Chwefror 9, o'r ddarfodedigaeth, Jane, anwyl briod Mr. Rees Price, 23, Harriet Street, Aberdar, ychydig yn fyr o 34 mlwydd oed. Bu yn clafychu yn hir, ond yn raddol fe dynwyd y babell i lawr, er galar trist i'w phriod a dau o blant, i'r rhai y mae ei choffadwriaeth yn anwyl iawn. Yr oedd y teulu yn un o'r dedwyddaf, ond bellach, wele y briod ffyddlawn a'r fam dyner, ofalus, wedi blaenu. Coffadwriaeth o'i rhinweddau lluosog fo yn melusu profiad beunyddiol y rhai mewn galar, ac yn eu helpu i ymfoddloni i'r drefn sydd efallai yn fynych yn ymddangos yn dywyll, a chaffont fodd i gredu fod y Tad Goreu wedi darparu cydgyfarfyddiad hyryd mewn byd ac mewn bywyd gwell. Gwasanaethwyd yn y ty gan weinidog yr H.D.C., a chladdwyd yn mynwent Eglwys Penderyn.

Chwefror 14, Phœbe, anwyl wraig Mr. Daniel Jones, Aberaman, yn 31 oed. Y mae gair da i Phœbe yn mhlith ei chymydogion, y rhai a'i desgrifiant hi fel menyw dawel a diwyd, diniwed a gofalus iawn. Mwy felly fydd colled ei gwr a'i dau blentyn bach, y rhai ydynt wedi eu gadael mewn galar. Caffont nerth i ymddiried yn llaw yr Hwn sydd yn llywodraethu. Claddwyd dydd Mawrth yn y Cemetery, y Parch. D. Silyn Evans yn gwasanaethu.

Chwefror 21, Evan, bachgen bychan Mr. a Mrs. Elizabeth Evans, Gwarallt-y-Faerdref, yn dair blwydd oed. Bachgen tlws oedd Evan, ond yn wan iawn oddiar ddydd ei enedigaeth. Y dydd Llun canlynol cafodd gynhebrwng lluosog. Yn y ty pregethodd y Parch. T. Thomas, a gwasanaethodd gweinidog y Bwlch ar lan y bedd yn nghladdfa brydferth Bwlch-y-Fadfa. Cofied y rhieni mai rhodd dymhorol oedd Evan bach, a'n dymuniad yw, ar iddynt sugno eu cysur oddiwrth y Duw

Hwnw sydd yn caru plant bychain. Yr oedd y Parch. J. Davies, Alltyplacca, yn bresenol.

Chwefror 28, Mr. James Thomas, Waunfach, Bwlch-y-Fadfa, yn 84 mlwydd oed. Yr oedd ein hen frawd yn selog iawn yn y Bwlch; ac o herwydd trymder ei glyw eisteddai bob amser yn y pwlpud. Cafodd yr hen frawd y fraint o ddwyn ei blant i fyny i gyflawn oed, a deallwn y gwnaethant hwy yn nghyd ag ŵyr parchus iddo eu rhan drosto. Y dydd Llun canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn nghladdfa y Bwlch, pryd y pregethwyd yn y capel gan y Parch. W. J. Davies, y gweinidog, i gynnulleidfa fawr. Bydded i'r perthynasau oll gael eu cysuro gan addewidion Efengyl Iesu Grist.

Mawrth 2, Jane Bertha, unig ferch y Parch. R. C. Jones a'i briod. Cafodd yr eneth fechan gystudd blin am yn agos i dri mis, yn ystod yr hwn amser y bu y tad a'r fam dyner yn ddyfal yn ei gwylio ddydd a nos, gan wneuthur pob peth ag oedd yn eu gallu i'w hymgeleddu, a chafodd y driniaeth feddygol fedrusaf a allesid ei chael; ond er y cyfan, ehedodd y wreichionen fywiol o honi nawn y dydd uchod, yn yr oedran cynnar o 10 mlwydd. Y dydd Gwener canlynol ymgynnullodd torf o bobl barchus i ddangos eu cydymdeimlad â'r rhieni trallodus. Er rhoddi cyfleusdra i'w chyfoedion dalu y gymmwynas olaf iddi, cauwyd yr ysgolion i fyny am y prydnawn, a daeth y plant yno yn drefnus, yn cael eu blaenori gan yr athrawon a'r athrawesau. Ymgynnullodd Band of Hope Brondeifi yr un modd, ac yn gwisgo ysnodenau *(rosettes)* fel arwydd o alar ar ol eu cydaelod. Gweinyddwyd yn y ty gan y Parch. W. James, Llandyssul, a chyn cychwyn tua mynwent Brondeifi, darllenodd emyn Saesneg pwrpasol iawn, yn dechreu fel y canlyn:—

"Safely, safely gathered in,
Free from sorrow, free from sin,
No more childish grief or fears,
No more sadness, no more tears."

Canwyd yr emyn gan y plant yn effeithiol iawn, a chanasant hefyd ar hyd y ffordd tua'r gladdfa. Dechreuwyd y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, yn cael ei ganlyn mewn anerchiadau tra phwrpasol a hynod gysurlawn i'r teulu trallodedig gan y Parchn. Evans, Soar (A), Pritchard (W), T. Thomas, Llanfair (A). Gorphenwyd drachefn ar lan y bedd gan J. Davies. Gan hyny, na foed i'r tad a'r fam a'r brawd alaru fel rhai heb obaith, ond bydded iddynt ymdawelu gan gysuro eu hunain yn ngoleuni Cristionogaeth, "o herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb." Yr oedd yr eneth ymadawedig mor hynod o ddiniwed, fel y credwn nad oedd llid, digofaint, na malais, yn cael lle yn ei chalon hi, a thrwy hyny ei bod wedi "marw yn yr Arglwydd," ac wedi myned i "orphwys oddiwrth ei llafur."—*Hevin.*

Mawrth 13, John Thomas, baban bychan Mr. a Mrs. Thomas, Gelligron (y mae Mrs. Thomas yn ferch i Castle-Howell Arms), yn 10 mis oed. Bu yr un bychan yn dyoddef oddiwrth *epileptic fits* yn ystod ei arosiad byr ar y ddaear. Y dydd Sadwrn canlynol claddwyd gweddillion marwol yr un bychan yn nghladdfa y Bwlch, gweinidog y lle yn pregethu. "Eiddo plant bychain yw teyrnas Dduw," medd yr Iesu. Caffed y rhieni gysur yn y geiriau hyn.

Mawrth 14, Mr. John Davies, a adnabyddid yn gyffredin wrth yr enw John Davies Glan Dilen, yn 67 oed, o'r cancr. Cafodd Mr. Davies gystudd caled iawn, yn ddiamheuol, yr oedd ei fywyd yn ystod y blynyddau diweddaf yn boen a blinder iddo. Y dydd Mawrth canlynol pregethodd y Parch. W. J. Davies yn yr Ysgoldy, a'r Parch. T. James (M.), ac yna hebryngwyd yr hyn oedd farwol o hono i gladdfa Eglwys y Plwyf. Bydded i'r plant gadw eu ffydd yn Nuw fel Tad cariadus, yr Hwn sydd yn llywodraethu y cyfan er y goreu.

Mawrth 15, Evan Evans, saer coed, Harriet St., Aberdar, yn 52 oed, gan adael gweddw a naw o blant i alaru eu colled, rhai o honynt yn fân iawn. Claddwyd dydd Mercher yn y *Cemetery*, gweinidog yr H.D.C. yn gwasanaethu. Yr oedd Evan Evans o gynneddfau y tu hwnt i'r cyffredin, yn ddarllenwr craffus ac yn siaradwr medrus a pharod iawn. Darllenodd Yr Ymofynydd a'r *Faner* am fwy nag ugain mlynedd, ac yr oedd yn wleidyddwr goleuedig ac yn Undodwr gwresog. Caffed y galarwyr foddion i ymdawelu, a bydded i'r fam a'r plant fod mwy yn bob peth y naill i'r llall gan roddi hyder ar y Tad goreu, a chyda phob gostyngeiddrwydd geisio cyflawnu eu dyledswyddau yn ffyddlon y gweddill o'u dyddiau.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

AT Y CYHOEDD.

Erfynir arnom yn fynych i roddi hyspysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddyginiaethol a vneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai :—

GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS. Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hyspysrwydd yma. Digon yw dweyd fod " Dr Quain's Dictionary of Medicine "—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg erioed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddoluriau perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hyspys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sicr eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT, neu *"American Marvel."* Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y Gwynegon, Lumbago, Sciatica, Cymalau Stiff, Cramp, Stiff Joints, Chwyddiadau, Clefisiau, Ysigiadau, Dolur y Gwddf, Quinsy, Gwendid yn yr Aelodau, Inflammation, a holl boenau *lleol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.—Yr ydym yn gwarantu y gwna y Feddyginiaeth hon Awchu y Cylla at Fwyd, Cynnorthwyo Treuliad Bwyd, Puro y Gwaed, Cryfhau'r Gewynau, Sirioli'r Ysprydoedd, Addfedu ac Ardlwyis pob Hylyf Afiach a Llysnafeddog o'r Corff.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S TIC MIXTURE.—Symmuda hwn y dolur a elwir Tic, (neu Tiotolorw) a'r Rheums mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.—Nid oes eisieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Lozenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at Gryfhau a Phereiddio y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame Edith Wynne, Dr. Parry, Owen Alaw, Eos Morlais, Llew Llwyfo, Jas. Sauvage, D. Jenkins, Mus. Bac., Jno. Thomas, Caradog, &c, &c.. *Pris* 6ch. a 1/-. *Gellir eael y Blwch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.—Meddyginiaeth effeithiol at wella " Bronchitis." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

"FLATULINE."—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud gwynt o'r cylla a'r ymysgaroedd. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

" ASTHMALINE."—Darpariaeth gwir werthfawr at ddiffyg anadl. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

" DR. CRYNANT'S PLASTER." (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Clwyfau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Pachets*, 7½*c. a* 1/1½ *yr un. Yr un mwyaf drwy y Post am* 1/3 *mewn stamps.*

PERCHENNOG :—

J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

Hirwain.



INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.

The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.

It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.

Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. The fact speaks volumes in favour of these Pills.

Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.

There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.

It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.

THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.

Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.

IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.